Hela'r Penwaig.

Mae gadael cei yr harbwr yn wefr sy' heb ei ail
A theimlo'r llong yn torri'r don dan wyneb gwyn yr haul
A'r gwynt yn llenwi'r hwylie y'n tywys ni tua'r de
Fe ffeindiwn haid o benwaig a'n ffortiwn y'r'un lle.

Fe awn i hela'r penwaig yn nyfnder llwyd y lli
Pan godant at y basddwr o'r hen ddyfnderoedd du
Fe brofwn nerth ein rhwydi, sy'n feichiog dan ei llwyth
A chanwn wrth i'n weithio, gan ddisgwyl maint y pwyth.

Gwylanod sy'n ein harwain at haid o benwaig braf
Fe helwn bob pysgodyn, boed gaeaf neu boed haf.

Rhown weddi am gynhaeaf haelionus yn ei bryd
A gwynt o'r de y'n cludo yn ol i'r porthladd clud
Rhown ddiolch i'r Gwaredwr, wrth gyrraedd y tir mawr
Am gofio pa mor fychan yw'n llong, a'r mor mor fawr.

h. Geraint Griffiths 1998.